# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Mai 24ain 2022 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gwenda Evans, Gwenda Morris, Gary Thomas a'r clerc Ymddiheuriadau: Eifion Davies, Dewi Pritchard a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Croesawyd Gwenda Morris yn nôl i'r cyngor ar ôl cyfnod o salwch.

i) Croesawu'r cynghorwyr - **GWBLHAWYD Y FFURFLENNI DERBYN SWYDD A DATGAN BUDDIANT.**

ii) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd - **ETHOLWYD MALDWYN JONES FEL CADEIRYDD AC EIFION DAVIES YN IS-GADEIRYDD. GAN NAD OEDD MALDWYN JONES YN BRESENNOL CYTUNODD RITA JONES I GADEIRIO'R CYFARFOD.**

iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau - **ADOLYGWYD A CHAFWYD YN GYWIR.**
Ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
Partneriaeth Penllyn/Cwmni Pum Plwy Penllyn: Eifion Davies a Gwynedd Jones.
Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands.
Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: **ROEDD CYFNOD Y CYNGOR WEDI DOD I BEN A THRO CYNRYCHIOLYDD O GYNGOR LLANYCIL OEDD MYNYCHU'R CYFARFODYDD.**
Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones.

iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor - **CYMERADWYWYD.**

v) Cyfrifon 2021-22 - **CYMERADWYWYD**

vi) Archwiliad Blynyddol y Cyngor - **ROEDD CYNGOR GWYNEDD WEDI ARCHWILIO'R CYFRIFON A CHAFWYD CADARNHAD I SICRWYDD YN NHREFNIADAU LLYWODRAETHU A DATGANIADAU CYFRIFYDDU'R CYNGOR.**

vii) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd – **CYTUNWYD I OFYN BE OEDD FFIOEDD PRESENNOL CYNGOR GWYNEDD A CHYNGHORAU ERAILL YM MHENLLYN AC AIL DRAFOD YN Y CYFARFOD NESAF.**

viii) Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2022/23 - **COFNODWYD Y LLYTHYRAU A DDERBYNIWYD GAN Y CYNGHORWYR YN CADARNHAU NAD OEDDYNT AM HAWLIO UNRHYW GYDNABYDDIAETH ARIANNOL.**

ix) Adolygu Asedau – **ADOLYGWYD. CYTUNODD Y CYNGHORWYR I ARCHWILIO'R ASEDAU. GWNAED TREFNIADAU I ARCHWILIO'R MYNWENTYDD. CYTUNWYD I OSOD HYSBYSEB YM MHETHE PENLLYN I HYSBYSU'R CYHOEDD O'R GWAITH YMA**.

x) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor - **ADOLYGWYD A CHAFWYD YN GYWIR.**

xi) Cynllun Hyfforddiant **- GWNAED ASESIAD O ANGHENION HYFFORDDIANT Y CYNGHORWYR PRESENNOL A'R CLERC A BE FYDDAI AR GAEL I UNRHYW GYNGHORWYR NEWYDD A FYDDAI'N YMUNO A'R CYNGOR.**